EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CEREDIGION 2020
CEREDIGION NATIONAL EISTEDDFOD 2020

GŴYL Y CYHOEDDI
PROCLAMATION FESTIVAL

Caeau Chwarae
Ysgol Uwchradd Aberteifi
11:00, Dydd Sadwrn, 29 Mehefin

Ysgol Uwchradd Aberteifi
Playing Fields
11:00, Saturday 29 June

EISTEDDFOD
Ceredigion 2020

www.eisteddfod.cymru
0845 4090 900

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CEREDIGION 2020
SEREMONI Y CYHOEDDI

Yn hanesyddol, mae'n rhaid cyhoeddi bwriad Eisteddfod i ymweld ag ardal o leiaf blwyddyn a diwrnod cyn cychwyn y Brifwyl. Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020 ar gyrion Tregaron o 1–8 Awst, a bydd y dathliadau a gynhelir eleni ar fore Sadwrn 29 Mehefin yn Aberteifi yn gyfle i 'gyhoeddi' hyn i bawb, yn lleol ac yn genedlaethol.

Ynghyd â'r brif seremoni caiff amrywiaeth o weithgareddau eu cynnal dros gyfnod o bythefnos gan gynnwys gŵyl gerddoriaeth newydd a chymanfa swyddogol y cyhoeddi – ewch i eisteddfod.cymru/eisteddfod-2020/cefnogi/digwyddiadau-cymunedol am fanylion gweithgareddau yn eich ardal chi.

Fel rhan o'r gweithgareddau, cynhelir gorymdaith liwgar ganol bore (oddeutu 10.15 os fydd y tywydd yn caniatáu), gan gynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, sefydliadau a chymdeithasau lleol ynghyd â Gorsedd y Beirdd, i groesawu'r Eisteddfod i'r Sir, a chyflwyno'r Sir i'r Eisteddfod.

Bydd yr orymdaith yn cychwyn a diweddu ar gaeau chwarae Ysgol Uwchradd Aberteifi yn gyfochrog â'r Ganolfan Hamdden gan ymdeithio trwy'r dref lawr Ffordd y Gogledd; i'r chwith lawr Feidrfair cyn ymuno â Stryd y Priordy; yna lawr Stryd Morgan ac o amgylch y Strand ac i fyny ar hyd y Stryd Fawr / Pendre ac yn ôl heibio Coleg Ceredigion at y Cylch. Cynhelir Seremoni'r Cyhoeddi ei hun wedyn am 11.00 ar gaeau chwarae yr Ysgol gan ddefnyddio cerrig symudol yr Orsedd.

Dyma pryd y cyhoeddir Rhestr Testunau Eisteddfod Ceredigion, sef y rhestr o gystadlaethau a gwybodaeth i unrhyw un sy'n dymuno mynd ati i gystadlu'r flwyddyn nesaf. Yr Archdderwydd newydd, Myrddin ap Dafydd, a orseddir ar ddechrau'r Seremoni hon fydd yn arwain, gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwaith lleol, Elin Jones, yn cyflwyno'r copi cyntaf o'r Rhestr Testunau iddo.

Bydd plant cynradd y Sir yn cael gwahoddiad i ymuno ar y Cei yn y dref am 9.45 mewn sesiwn Canu a Dawnsio gyda Huw ac Elin, cyflwynwyr Cyw S4C. Mi fydd yna hefyd gystadleuaeth arbennig i'r ysgolion i baratoi baner ar gyfer yr orymdaith, a feirniedir gan y ddau ohonynt. Bydd y plant wedyn yn ymuno a'r orymdaith gan wneud eu ffordd fyny at y Cylch ar gyfer dechrau'r seremoni am 11.00

Dewch draw i ymuno ym mwrlwm y dathliadau a dyfodiad yr Eisteddfod i Geredigion yn Aberteifi ar 29 Mehefin.

Cymanfa Ganu'r Cyhoeddi

Cynhelir Cymanfa Ganu yng Nghapel Soar, Llanbed, nos Iau 27 Mehefin am 19.00. Margaret Daniel a Delyth Hopkins Evans fydd yn arwain y canu â Sarah-Jane Absalom yn organydd gydag eitemau gwadd gan yr enillydd Rhuban Glas, Kees Huysmans.

Mynediad trwy Raglen yn £5 ar gael yn Sianti (Aberaeron); Awen Teifi (Aberteifi); Siop y Pethe a Siop Inc (Aberystwyth); Smotyn Du (Llanbed); Siop Ffab (Llandysul); Anrhegaron, Rhiannon a Medical Hall (Tregaron). Bydd y Gymanfa yn cael ei recordio gan gwmni Rondo ar gyfer Dechrau Canu Dechrau Canmol S4C.

CEREDIGION NATIONAL EISTEDDFOD 2020
PROCLAMATION CEREMONY

Historically, the Eisteddfod has to announce its intention to visit at least a year and a day before the start of the festival. The Ceredigion National Eisteddfod 2020 will be held on the outskirts of Tregaron between 1–8 August, and the proclamation ceremony held this year on Saturday morning, 29 June at Cardigan, will be a wonderful opportunity to announce this to everyone, both locally and nationally.

As well as the main ceremony a number of varied community events will be held during a fortnight of celebrations to coincide, including a new music festival and the Proclamation Singing Festival (Cymanfa Ganu) – go to eisteddfod.wales/eisteddfod-2020/get-involved/community-events for event details in your area.

As part of the activities, a colorful procession is held during mid-morning (around 10:15 weather permitting), including representatives from schools, local organisations and associations along with the Gorsedd of Bards, to welcome the Eisteddfod to the County, and to introduce the County to the Eisteddfod.

The procession will start and end at Ysgol Uwchradd Aberteifi playing fields adjacent to the Leisure Centre and will parade down North Road; left down Feidrfair before joining Priory Street; down Morgan Street, around the Strand and up along the High Street / Pendre, passing Ceredigion College back to the Gorsedd Circle. The Proclamation Ceremony will commence at 11.00 on the School playing fields using the temporary Gorsedd Stone Circle.

During the cermeony, the inagural copy of the Ceredigion Eisteddfod Competition Syllabus, which is a list of competitions and information for anyone wishing to compete next year will be presented to new Archdruid, Myrddin ap Dafydd, to be enthroned at the beginning of the ceremony, from the Chair of the local Executive Committee, Elin Jones.

The County's primary school children will be invited to assemble on the Quay in town for 9.45 to take part in a song and dance session with S4C's Cyw presenters Huw and Elin. There will also be a special baner making competition for the procession adjudicated by them both. All the children will then join the procession and make their way up to the Gorsedd Circle for the beginning of the ceremony at 11.00

Proclamation Singing Festival (Cymanfa Ganu)

The Proclamation Cymanfa Ganu will be held at Capel Soar, Lampeter, on Thursday 27 June at 19.00. Margaret Daniel and Delyth Hopkins Evans will conduct the singing with Sarah-Jane Absalom as organist together with Blue Riband winner Kees Huysmans as special guest.

Admission is £5 by program available from Sianti (Aberaeron); Awen Teifi (Aberteifi); Siop y Pethe and Siop Inc (Aberystwyth); Smotyn Du (Llanbed); Siop Ffab (Llandysul); Anrhegaron, Rhiannon and Medical Hall (Tregaron). The Cymanfa will be recorded by Rondo for S4C's Dechrau Canu Dechrau Canmol.

Llwybr yr Orymdaith / Procession Route



www.eisteddfod.cymru
0845 4090 900